

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	Tachwedd 22ain 2016
<b>TEITL</b>	Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn 2011-26
<b>PWRPAS</b>	Diweddariad i Aelodau
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr wybodaeth.

## **1.0 CYFLWYNIAD**

- 1.1 Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Môn wedi paratoi Cynllun Datblygu ar y cyd o'r enw Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Bydd yn Cynllun hwn yn disodli'r Cynlluniau Datblygu presennol ac bydd yn weithredol hyd at 2026.
- 1.2 Paratowyd y Cynllun dros gyfnod o rai blynyddoedd gan ddilyn arweiniad a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru mewn amrywiol ddogfennau. Mae'r Gwasanaeth AHNE wedi cyfrannu at ddatblygu strategaeth y Cynllun ac wedi gwneud sylwadau ar wahanol rannau drafft.

## **2.0 SYLWADAU Y CYDBWYLLGOR YMGYNGHOROL**

- 2.1 Ystyriwyd y Cynllun drafft gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus a phenderfynwyd gwneud nifer o sylwadau ar faterion yn ymwneud â'r AHNE. Anfonwyd rhain ymlaen i sylw'r Uned Bolisi ar y Cyd.
- 2.2 Bu i'r Uned Bolisi ar y Cyd ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd ar y Cynllun drafft a phenderfynu gwneud rhai newidiadau i'r Cynllun - eto roedd hyn yn destun i ymgynghori. Roedd rhai o'r newidiadau hyn yn datrys rhai o'r gwrthwynebiadau a wnaed i'r Cynllun ond roedd cyfanswm sylweddol yn parhau ac felly angen cael eu hystyried drwy Archwiliad Cyhoeddus.

## **3.0 ARCHWILIAD ANNIBYNNOL**

- 3.1 Gyda'r Archwiliad Annibynnol roedd 2 Arolygydd yn ystyried yr holl wrthwynebiadau oedd yn parhau i sefyll (h.y heb eu datrys yn sgil y Newidiadau â Ffocws). Roeddent yn ymdrin gyda'r sylwadau trwy drefn ysgrifenedig neu wrandawriad – yn ddibynnol ar ddymuniad y rhai sydd wedi gwneud sylwadau.
- 3.2 Yn achos Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE penderfynwyd i'r Arolygwyr ystyried rai sylwadau trwy'r drefn ysgrifenedig a mynychu'r Archwiliad efo nifer o faterion eraill.
- 3.3 Roedd y gwrandawriadau yn cael eu cynnal yn ystod mis Medi mewn gwahanol leoliadau. Roedd y Gwasanaeth AHNE wedi paratoi Datganiadau Ysgrifenedig ar y materion perthnasol a'u cyflwyno i sylw'r Swyddog Rhaglen ymlaen llaw.

- 3.4 Yna bu'r Cadeirydd yn cynrychioli'r Cydbwyllgor mewn gwrandawriad ar faterion yn ymwneud â'r Amgylchedd Naturiol/ Adeiliedig a'r Economi a'r Is-gadeirydd yn y gwrandawriad ar faterion Ynni Adnewyddol.
- 3.5 Y cam nesaf yw bod yr Uned Polisi ar y Cyd yn cyhoeddi cyfres o newidiadau pellach y bwriedir eu gwneud i'r Cynllun Datblygu Lleol - disgwylir i hyn ddigwydd cyn y Nadolig. Yna bydd Adroddiad yr Arolygwyr, fydd yn deilio gyda'r gwrthwynebiadau sydd heb eu datrys, yn cael ei chyhoeddi yn gynnar yn 2017.

#### **4.0 ARGYMHELLIAD**

- 4.1 Derbyn yr wybodaeth.